1.

Cofnodion drafft Cyfarfod Cyllid 8.1.26

Pawb yn bresennol dros zoom oherwydd amodau tywydd gwael.

Absennoldeb John Evans, a Cyngh Sir Gwynfor Owen.

Gair yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda gan y Cadeirydd Jane Taylor Williams, ac yn diolch i'r Is Gadeirydd Eirwyn Thomas ac i'r Clerc am dreilio nifer o oriau yn llunio y spread sheet yma.

Nodwyd hefyd bod Luise a Robin yn dymuno cwestiynnu rhai agweddau o godiad yn y praesept. Ar rhai elfennau. Nodwyd mai dogfen I'w drafod oedd hwn.

Trio cadw y presept fel ac y llynedd o £29000. Eleni ffigwr dan ystyrieth yw £31000

Y gwasanaeth zoom gyda cyfieithiad gan Arfon Hughes wedi gweithio yn dda.

Holwyd parthed y microphone mae RW wedi ei bwrcasu. Yn gweithio yn y Neuadd, ond ddim bob amser. Wedi anfon un yn ol i'r cwmni, ac wedi derbyn un arall yn ei le.

Y Clerc yn nodi bod posib cael grant at y costau hwn, gan Gwynedd Ni. Pasiwyd trio hyn allan eto yn y Neuadd Bentref nos fercher nesaf. 14.1.26

Treth Tai Band D yn yr ardal =

Llanbedr = £385.11

Harlech = £904.83

Llanfair £379.49

Talsarnau 394.32

Egluro hyn. Drwy godi £29000 ar y presept mae angen rhannu hwn gyda £38511 sydd yn gneud £75.30 y ty (I'r Cyngor Cymuned)

Os ydym yn hawlio £31000 ar y presept bydd yn golygu £80.49 y ty

Sy,n golygu £5.19 o godiad yn y presept/ty.

Cofiwch hefyd bydd y Gwasanaeth Tan, Cyngor Gwynedd a'r Heddlu yn codi hefyd.

Materion y Gyllideb

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd | 25/26 | 26/27 |
| | £1000 | £3000 |

Heb ei wario/cyflwyno mmmmm

Pasiwyd i gadw hwn am y tro.

Pwysig helpu yr Ysgol Leol. Nifer ohonynt yn cau. Gwaith casglu arian gan Cyfeillion yr Ysgol – ee. Cost bws I nofio, pantomeim, tripiau. Hefyd bod yr Ysgol yn gorfod chwilio am gyllid tuag at adnewyddu – cwpwrdd, giat, angen hysbysfwrdd Newydd.

| | | |
|---|---|---|
| Neuadd | 1500 | £3000 |

Yr un yw'r sefyllfa gyda'r Neuadd Bentref. Cadw cost llogi yn isel fel bod modd i bawb fedru cael defnydd ohoni. Gan mae'r un yw Pwyllgor Neuadd a Cyngor Cymuned, mae'n rhaid gwarchod ein heiddo. Mae Cynghorau eraill yn cyfrannu –

Dyffryn £6000 – neu yn talu am unrhyw waith sydd ei angen

Talsarnau £2000

Harlech - £2000 tuag at Neuadd Goffa, a Llyfrgell £2000

Yn wir mae angen rhywbeth dra gwyddol yn y Neuadd. Drws yn malu, boiler cyhnesu o dan llawr, maes parcio

Eirwyn a Helen yn adrodd bod problem carreg ateb yn Rhinog Fawr – a phobl yn bwgwth gadael a chwilio am safle arall. Hyn ddim o help i gadw'r Neuadd yn agored.

3.

Problem parcio anabl – un wedi disgyn o'I gadair olwyn cyn y nadolig.  Maen rhaid datrys hyn ar fyrder.  Nodwyd bod Nia Jones wedi cyfeirio at y broblem yma tua 2 flynedd yn ol bellach.

Angen ystyried codi'r slabs yn ardal anabledd a thario.  Amcangyfrif o'r gost yn £2000

Nododd JTW – Dylai'r Cyngor Cymuned roi cymorth at hyn.  Bod y acustics yn wael – pobl yn cwyno yn y grwp croeso cynnes.

AH yn gefnogol I'r 2 beth yma yr Ysgol a'r Neuadd. Dau beth hollol bwysig I Gymuned a Phentref Llwyddiannus.  Kevin, Nia, Jane, Annwen ac Eirwyn yn gefnogol.

Robin a Luise yn cytuno gyda hyn, ond yn cyfeirio  y dylid bod Pwyllgor Neuadd yn arwain ar hyn, a hefyd codi arian a hefyd chwilio am grantiau.

Nododd E|irwyn nad oes llawer yn dod I Bwyllgor Neuadd.

JTW – felly mae angen ail wampio yr aelodau, cael gwared ar rhai ac ethol rhai newydd fydda yn cyfranogi mwy.

Bydd pwyllgor nesaf y Neuadd tua diwedd Ionawr.

*Cwestiwn pan bod CCTV wedi mynd o £2400 I £7000

A ninnau heb wario y £2400 yn y gyllideb ers 2 flynedd.

PASIWYD I ostwng hwn yn ol i £5000

Gan obeithio bydd hyn yn ddigon i wneud y gwaith anghenrheidiol, pe baem yn mynd ymlaen gyda'r datblygiad. Clerc yn dal I ymchwilio i bosibilrwydd o grantiau

Amcangyfrif RJElectrics oedd hyn, (£7000) a hefyd er mwyn dod a gwariant i lawr yn y banc ond hefyd felly yn  ychwanegu at y presept.

Nododd JTW ei bod wedi cael safle ar gyfer yr HWB yng nghanol y Pentref, fyddai'n addas.

LV – gan bod y safle yn un preifat yn bryderus parthed elfen preifatrwydd a byddai'n rhaid bod yn sicr bod hyn yn cyfiawnhau.

KT – angen caarnhau trefniadau gyda'r darparwr safle.

JTW – yn nodi y bydda 2 oriad i'r safle.   Tydi'r camerau CCTV ddim yn gallu amharu ar breifatrwydd y Pentre – dim yn gallu edrych I mewn I adeiladau.

ETh – nid oes raid mynychu'r safle I weld y videos, gelli'r gneud hyn o unrhyw saflr ar phone.  Gellid cael mynedfa I'r camerau recordio o'r Neuadd.

AH – yn nodi mae Cynghorydd Dina Fisher wedi gwneud lot o waith yn Bermo parthed CCTV.  Bod hi a Cyngh RW wedi bod mewn cyfarfodydd yn y Bermo parthed hyn.

Mater Arall yn codi yw'r lwfans sydd ar gael ar gyfer Cynghorwyr

Nododd y Canlynol nad oeddent yn dymuno hawlio lwfans 2026/27

Annwen Hughes, Robin Ward, Nia Jones, Helen Johns

Bod y Cynghorwyr  Jane Taylor Williams a Eirwyn Thomas am gymerud yr arian lwfans, a'i roi at y Neuadd.

Kevin Titley, Luise Vassey a John Evans ddim wedi penderfyny ar hyn.

Nododd y Clerc bod angen cael gwybod cyn diwedd Ionawr er mwyn anfon taflen praesept yn ol I Gyngor Gwynedd.

5.

TRIO DOD A’R PRAESEPT I LAWR YN OL i £29000 ( o gwmpas hyn)

**Materion Eraill y Cyngor**

1.Nododd y Clerc parthed fforwm Ardudwy. Teimlo bod hwn yn colli momentwm. Cytunodd AH. Pasiwyd bod y Clerc yn anfon at Gynghorau Ardudwy i weld a ydynt eisiau parhau gyda hyn bob 3 mis.

2. Nododd JTW bod angen gair o ddiolch at breswylwyr Rhif 1 Plas Newydd – mae yn helpu lot yn tacluso o amgylch y Pentref.

3. Problem Van ger Neuadd Bellach yn creu problem wrth barcio yn Bryn Deiliog.

4. Eirwyn Thomas – yn falch o weld y biniau halen wedi ei llenwi.

Y Clerc wedi anfon at Cyngor Gwynedd yn gofyn am gyflenwad.

5. Nododd AH bod y peiriant ysgubo dail wedi bod yn glanhau ochr ffyrdd cyn y Nadolig. O Bont Beser i lawr i’r Pentref.

6. Kevin Titley – Bod nifer o ardaloedd angen eu sgubo o fewn y Pentref – budreddi – rhag I’r safleoedd rewi a ac achosi damweiniau.

a) Top Never Cut

b)Gyferbun ty Terrance Hughes

c)Dail a mwd ar y palmant o’r Bont I lawr ffordd Mochras.

d) Ger Station Talwrn Bach – ar y palmant

KT am anfon lluniau at Cyngor Gwynedd.

7. Eirwyn Thomas yn nodi bod John Thomas wedi gwneud gwaith ar yr iddew yn y fynwent.

6.

8. Bod Hywel Wyn wedi gwneud gwaith taclus iawn yn clirio y cerrig a phridd a gwastraff torriadau gwellt o'r safle ailgylchu.9. Angen cael treialu y microphone ar gyfer cyfarfodydd hybrid

Nos Fercher 14 rhai yn y neuadd, eraill adref. Am 7.30

Eirwyn, Robin, Luise a Helen. A Morfudd y Clerc.